

Tymor yr Hydref

Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 a 2

Thema'r Tymor: Ni ein Hunain

Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu

Yn ystod yr hanner tymor cyntaf byddwn yn edrych ar y thema "Ein Hunain" a ysgrifennu ffurfiau ffeithiol, trwy ysgrifennu newyddion, ysgrifennu portraed am ein hunain a aelodau teulu, dysgu patrymau iaith, dysgu geiriau newydd a llythrennau. Ar ôl hanner tymor byddwn yn edrych ar y thema "Dathliadau" a byddwn yn defnyddio y pecyn 'Coeden Aled' i helpu gyda ysgrifennu ffurfiau creadigol. Bydd y plant yn dysgu am Aled Afal a'i ffrindiau trwy edrych arno a trafod lluniau lliwgar a chwarae gemau diddorol.

Byddwn yn edrych ar sut i ffurfio llythrennau'n daclus ac yn gywir a datblygu'r sgiliau sy'n galluogi'r plant i wneud hyn. Byddwn yn gwneud hyn mewn gwahanol ffyrdd ymarferol, trwy beintio, defnyddio toes, rhubanau, tywod, tywod gwlyb, gemau ar y cyfrifiadur ac yn y blaen.

Datblygiad Mathemategol

Yn ystod yr tymor byddwn yn edrych ar "Rhif", yn ystod yr hanner tymor cyntaf bydd Derbyn yn dysgu sut i ffurfio rhifau 1 – 10, adnabod gwerth y rhifau a cyfri yn gywir. Bydd plant blwyddyn 1 a 2 yn canolbwyntio arno adio, tynnu, lluosu a rhannu. Ar ôl hanner tymor bydd Derbyn yn edrych ar adio a tynnu a bydd plant blwyddyn 1 a 2 yn edrych ar datrys problemau.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Ein thema ni am y hanner tymor cyntaf yw "Ein Hunain". Bydd y plant yn dysgu am y corff a sut mae y corff yn gweithio. Ar ôl hanner tymor byddwn yn edrych ar "Dathliadau". Byddwn yn edrych ar Calan Gaeaf, Noson Guto Ffowc, Y Ffair a Nadolig.

Datblygiad Corfforol

Byddwn yn edrych ar sgiliau gymnasteg tymor yma. Byddwn yn datblygu sgiliau cydsymud, sgiliau echddygol bras ac yn datblygu hyder. Bydd y plant yn dysgu sut i rheoli symudiadau'r corff a datblygu ffyrdder y cyhyrau, tyndra priodol a chydbywedd.

Datblygiad Creadigol

Yn ystod y tymor yma byddwn yn canolbwyntio arno celf a chreffft. Byddwn yn darlunio, peintio a creu collage. Yn ystod y hanner tymor cyntaf byddwn yn edrych ar y wyneb a y corff. Bydd y plant yn dysgu sut i cymysgu lliwiau a dechrau defnyddio llinellau a siapiau i greu lluniau. Ar ôl hanner tymor byddwn yn gwneud gwaith ar y gwahanol dathliadau sydd yn dod lan, yn bennaf Noson Guto Ffowc a Nadolig. Byddwn yn canu ystod o ganeuon gan gannwys hwiangerddi, chwarae patrymau rhythmig a melodig syml ar amrywiaeth o offer.

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Mae datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol yn datblygu ar draws yr holl feysydd dysgu wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu gwahanol. Bydd y plant yn dysgu amdanynt eu hunain, deall sut i bod ffrind da i plant eraill, datblygu perthynas da gyda oedolion o fewn eu teulu a'r tu allan, datblygu hyder a dangos gofal, parch a hoffter at blant eraill a oedolion.

Addysg Grefyddol

Byddwn yn edrych ar sut mae bob plentyn yn arbennig ac yn unigryw a sut i ystyried teimladau pobol. Byddwn yn edrych ar y ffordd Gristnogol o fyw. Gwenn ni'r stori "Y Samariaid Trugarog" ac edrych ar y Deg Gorchymyn. Byddem yn dysgu am y "Stori'r Geni".